

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Bydd T212 yn darparu sgiliau sy'n berthnasol i ddiwydiant yn yr agweddau craidd ar faes electroneg analog a digidol. Caiff cylchedau a systemau electronig eu haddysgu mewn tri phwnc, sef synhwyro, rhesymeg a chychwyniad. Mae'r pwnc synhwyro yn rhoi ymwybyddiaeth fanwl o'r byd, mae'r pwnc rhesymeg yn gwneud penderfyniadau clyfar ac mae'r pwnc cychwyn yn cynhyrchu allbynnau diriaethol. Hefyd, bydd deunydd integreiddiol ar gael a fydd yn dod â'r tri phwnc hwn ynghyd.

Bydd myfyrwyr yn defnyddio pecyn meddalwedd rhyngweithiol i adeiladu a phrofi cylchedau electronig syml a byddant yn trefnu sesiynau mewn labordy anghysbell newydd lle byddant yn bersonol yn cael rheolaeth amser real lawn dros gylchedau a systemau electronig o'u cyfrifiaduron eu hunain.

Bydd y modiwl yn defnyddio egwyddorion mathemategol a addysgir yng nghwricwlwm lefel 1 Peirianeg, bydd profion diagnostig yn cefnogi myfyrwyr drwy asesu eu gallu mathemategol a bydd sesiwn adolygu mathemateg yn ffurfio rhan o'r strategaeth diwtora.

Cynhelir asesiadau drwy dri aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) ac un aseiniad diwedd modiwl (EMA) terfynol. Caiff pedwar cwis ffurfiannol a gaiff eu marcio gan gyfrifiaduron (iCMA) eu defnyddio yn ystod y modiwl i gefnogi dysgu myfyrwyr.

T212 yw'r modiwl cyntaf ar lwybr electronig drwy'r BEng (Anrh), ac mae'n opsiwn drwy'r radd sylfaen Peirianeg. T312, a fydd yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2019 fydd y modiwl arall ar lwybr electronig BEng (Anrh).

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad ac arbenigedd diweddar ym maes electroneg;
- arbenigedd mewn cefnogi dysgwyr â chyfrifiadau mathemategol sy'n berthnasol i faes electroneg, gan gynnwys cyfres Fourier a rhifau cymhleth;
- diddordeb mewn systemau electronig gan gyfuno amrywiaeth o arbenigeddau electronig megis synhwyro, rhesymeg a chychwyn;
- dealltwriaeth o'r gwaith o weithredu microbrosesyddion a sut y cânt eu rhaglennu;
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd yn y defnydd effeithiol o arbrofi'r labordy anghysbell a thiwтора ar-lein, sy'n rhan hanfodol o'r modiwl hwn;
- y gallu i hwyluso gweithgareddau grŵp tiwtor ar-lein;
- parodrwydd a gallu i gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu diddorol ym meysydd cysyniadau / cwricwlwm electroneg a mathemateg wyneb yn wyneb ac ar-lein;
- tystiolaeth o ddarparu adborth o safon uchel.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg;
- profiad o addysgu electroneg a mathemateg gysylltiedig i fyfyrwyr peirianeg;
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach, addysg uwch a/neu ddysgu o bell;
- cymhwyster addysgu, neu gydnabyddiaeth broffesiynol gan sefydliad addysgu megis yr Academi Addysg Uwch;
- aelodaeth o sefydliad peirianeg;
- profiad o helpu myfyrwyr gyda'r gwaith o gynllunio datblygiad personol a phroffesiynol.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- Darperir dysgu drwy gymysgedd o diwtorialau a fforymau wyneb yn wyneb ac ar-lein ac adnoddau eraill ar-lein, gan gynnwys pecyn electronig Multisim safonol y diwydiant a Labordy OpenEngineering.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyryr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.